# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG HYDREF, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 9 Hydref 2017)

## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Annwen Hughes |
| Peredur Jenkins | W. Gareth Roberts |
| Mair Rowlands | Dyfrig L. Siencyn |
| Ioan Thomas | Gethin Glyn Williams |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Richard Medwyn Hughes | Eric M. Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Wyn Roberts |
| Angela Russell | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Alwyn Gruffydd |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2017/18

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is gadeirydd ar gyfer 2017/18.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16.02.2017 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig

## 8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG

Ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu at Aelodau'r Pwyllgor yn unig

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 16.02.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Stephen Churchman, Jean Forsyth, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Angela Russell, John Wyn Williams a R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths, Brian Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn a Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr),

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) yn eitem 5 ar y rhaglen gan ei fod yn brif swyddog ac felly yn destun y Polisi Tal. Pe byddai yna unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw, byddai'n gadael y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06.12.16 fel rhai cywir

## 5. ADRODDIAD POLISI TAL – ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd yr Adroddiad Polisi Tâl gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

Yn ei gyflwyniad, amlygwyd rhai ychwanegiadau i'r polisi tal ar gyfer 2017/2018. Tynnwyd sylw at y gymhareb rhwng canolrif cyflog Prif Swyddogion a'r lleiafswm cyflog o fewn y Cyngor o 1:5 ynghyd a'r gymhareb rhwng y cyflog uchel (Prif Weithredwr) a'r cyflog isaf o 1:7.8. (cymhareb genedlaethol yn 1:20 ). Yn wahanol i'r arfer, oherwydd bod cytundeb tal cenedlaethol wedi ei gytuno arno am gyfnod o ddwy flynedd yn Mawrth 2016, roedd y Cyngor eisoes yn ymwybodol beth fyddai lefel cyflogau staff a Prif Swyddogion oddi ar y 1af o Ebrill, 2017. Cyfeiriwyd at yr atodiad yn yr adroddiad ple'r oedd y manylion yn adlewyrchu cyflogau fel ag y byddant yn ymddangos ar gyfer 2017-18.

Yng nghyd-destun y cyflogau isaf nodwyd bod cyn Canghellor y Trysorlys mewn datganiad cyllidebol ar yr 8fed o Orffennaf 2015 wedi nodi'r angen i osod £7.20 yr awr fel 'cyflog byw' oddi ar y 1af o Ebrill, 2016 gan godi i £9.00 yr awr erbyn Ebrill 2020 (ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn). Adroddwyd y byddai pwynt 8 (sef isafswm cyflog y Cyngor) yn £7.90 yr awr (o'i gymharu â £8.45 yr awr a adnabyddir fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw) o'r 1af o Ebrill 2017. Nodwyd bod trafodaethau yn parhau gyda chynrychiolwyr undebau cydnabyddedig yn lleol i geisio codi'r isafswm yn agosach at yr hyn a adnabuwyd fel Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw erbyn Ebrill 2018.

Diolchwyd i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am y cyflwyniad ac amlygodd y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau Dynol) ei fod yn cefnogi'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a chystadlu gyda chwmnïau preifat e.e., ym maes gofal am swyddi sydd yn cynnig cyfraddau uwch o gyflog, eglurwyd bod isafswm tal gofalwyr yn seiliedig ar bwynt 10 (oddeutu £8.09 yr awr oddi ar y 1af o Ebrill, 2017) ond bod y rhan helaethaf o'r gofalwyr a gyflogir gan y Cyngor yn derbyn hyd at £8.54 yr awr oddi ar yr un dyddiad sydd eisoes yn uwch na'r Cyflog Byw. Derbyniwyd, fodd bynnag, bod trafferthion recriwtio yn y maes a bod angen rhoi sylw i hyn er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â manteision pensiwn y Cyngor, derbyniwyd bod hyn yn ran allweddol o'r pecyn cyflogaeth a gynigir i staff a bod angen mwy o godi ymwybyddiaeth ymysg staff presennol yn ogystal a darpar ymgeiswyr am swyddi er mwyn iddynt sylweddoli gwerth llawn y pecyn cyflogaeth sydd ar gael.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

**DERBYNIWYD YR ADRODDIAD YN UNFRYDOL YN UNOL Â'R ARGYMHELLIAD.**

- **Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor, ar Fawrth yr 2il 2017, fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2017 / 18.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:15pm